



Nos Iau, 12 Medi 2024 – 7.30yh
Festri Salem, Penmachno

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd **nos Iau 12 Medi 2024**
am 7.30, Festri Salem, Penmachno

1. Croeso ac Ymddiheuriadau am Absenoldeb
2. Datganiad o Fuddiant
3. Derbyn Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf
4. Darpariaeth a sut i ariannu diffibrilwyr
5. Materion yn Codi o'r Cofnodion Blaenorol (nid fel arall ar yr agenda)
6. Gohebiaeth
7. Adroddiad Cyllidol
8. Materion Cynllunio
9. Materion eraill

Presennol:

Claire Roberts
Daniel Tomos (Clerc)
Dylan Davies (Is Gadeirydd)
Eifion Davies
Eryl Owain (Cadeirydd)
Wil Edwards
Dilwyn Roberts (Cynghorydd Sir)

Ymddiheuriadau:

Bethan Corrigan
Dafydd Gwyndaf
Geraint Thomas
Owen Davis

Datganiad o fuddiant

Nid oedd unrhyw ddatganiadau

Derbyn cofnodion y cyfarfod diwethaf

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod **11 Gorffennaf 2024** fel rhai cywir, Claire Roberts yn cynnig a Wil Edwards yn eilio.

Minutes of a meeting held on **Thursday 12 September 2024** at 7.30 at Salem Vestry, Penmachno

1. Welcome and apologies for absence
2. Declaration of interest
3. Confirmation of the minutes from the previous meeting
4. Provision and funding of defibrillators
5. Matters arising from the minutes (not otherwise on the agenda)
6. Correspondence
7. Financial Report
8. Planning Applications
9. Any other business

Present:

Claire Roberts
Daniel Tomos (Clerc)
Dylan Davies (Deputy Chairperson)
Eifion Davies
Eryl Owain (Chairperson)
Wil Edwards
Dilwyn Roberts (County Councillor)

Apologies:

Bethan Corrigan
Dafydd Gwyndaf
Geraint Thomas
Owen Davis

Declaration of interest

There were no declarations

Confirmation of the minutes

The minutes of the **11 July 2024** meeting were accepted as a true record, proposed by Claire Roberts and seconded by Wil Edwards.

Darpariaeth a sut i ariannu diffibrilwyr

Adroddwyd na fydd y Gwasanaeth Ambiwylans bellach yn darparu diffibrilwyr, padiau na batris i gymunedau.

Nid oes angen newid y ddau ddiffibriliwr ym Mhenmachno ar hyn o bryd ond nid oedd gan y Cyngor Cymuned unrhyw ddewis ond prynu padiau newydd ar gyfer y ddau ar gost o £80+TAW. Os defnyddir y padiau, bydd yn rhaid prynu rhai newydd.

Adroddwyd y byddai'r Gwasanaeth Ambiwylans yn hoffi diffibriliwr ychwanegol yn y safle bws yng Nghwm a bod angen newid y cabinet yn y Shiloh am nad yw'n cael ei wresogi.

Penderfynwyd cysylltu â'r Gwasanaeth Ambiwylans ac yna dod o hyd i gyllid grant maes o law.

Materion yn codi:

Lorïau yng Nghwm Penmachno: Adroddwyd bod CNC wedi gofyn eto bod materion gyda chontractwyr yn cael eu hadrodd iddynt ar unwaith fel bod ganddynt well siawns o ymchwilio.

Toiled Cyhoeddus: Adroddwyd bod y llawr wedi sychu. Penderfynwyd cael prisiau ar gyfer llawr newydd ac ailbeintio'r nenfwd.

Arwydd Cwm Penmachno: Adroddwyd bod yr arwydd wedi ei drwsio.

Arwyddion Betws-y-coed a lldiwch: Adroddwyd bod dal angen trwsio dau arwydd ger y dafarn. Mae'n ymddangos bod arwydd Betws-y-coed wedi'i baentio â phaent du.

Cyffordd Ffordd Grenyn gyda'r B4406: Adroddwyd bod y Cyngor Sir wedi trefnu'r gwaith i osod drych.

Llwybr Cyhoeddus 55 – Y Waen: Adroddwyd bod aelod caredig o'r gymuned wedi dadflocio'r cwlfert oedd yn achosi difrod i'r llwybr. Penderfynwyd cysylltu eto gyda'r Cyngor Sir ynglŷn ag atgyweirio'r llwybr.

Llwybr ar draws y Bont Concrit: Adroddwyd bod esboniad y tîrffediannwr wedi bod yn ddefnyddiol iawn. Penderfynwyd archwilio opsiynau ar gyfer gwella'r llwybr cyhoeddus ar draws Pont Oernant.

Provision and funding of defibrillators

It was reported that the Ambulance service will no longer provide defibrillators, pads or batteries for communities.

The two defibrillators in Penmachno do not need replacing currently but the Community Council was left with no choice but to purchase replacement pads for both at a cost of £80+VAT. If the pads are used, they will need to be replaced again.

It was reported that the Ambulance service would like an additional defibrillator at the bus shelter in Cwm and that the cabinet at the Shiloh needs to be replaced because it is not heated.

It was decided to contact the Ambulance Service and then find grant funding in due course.

Matters arising:

Lorries in Cwm Penmachno: It was reported that NRW have asked again that issues with their contractors are reported to them immediately so that they have a better chance of investigating.

Public Toilet: It was reported that the floor has dried out. It was decided to obtain quotes for a new floor and repaint the ceiling.

Cwm Penmachno Sign: It was reported that the sign has been fixed.

Betws-y-coed and Give Way signs: It was reported that two signs near to the pub still need to be repaired. The Betws-y-coed sign appears to have been sprayed with black paint.

Grenyn Road Junction with B4406: It was reported that the County Council has scheduled the work to install a mirror.

Footpath 55 – Y Waen: It was reported that a kind member of the community had unblocked the culvert which was causing damage to the footpath. It was decided to contact the County Council again regarding repairs to the path.

Path Across the Concrete Bridge: It was reported that the landowner's explanation had been very helpful. It was decided to explore options for improving the public path across Pont Oernant.

Sant Tudclud: Yn dilyn cyfarfod safle, penderfynwyd ysgrifennu llythyr o gefnogaeth ynghylch cynllun yr eglwys i gadw ardal o fynwent y Cyngor Cymuned yn Sant Tudclud ar gyfer blodau gwyllt a chadw/claddu lludw.

Mynwentydd: Penderfynwyd gwneud gwaith cynnal a chadw tiroedd y mynwentydd yn amlach, yn enwedig ar hyd y ddau lwybr i'r eglwys. Penderfynwyd ymchwilio i wella golwg llwybrau'r eglwys. Penderfynwyd hefyd cysylltu â'r contractwr gyda'r bwriad o gynyddu ei gyflog.

Gohebiaeth

Agoriad Newydd ar Ffordd Glasgwm: Roedd nifer o bobl wedi cysylltu â'r Clerc ynglŷn ag agoriad newydd i Ffordd Glasgwm. Adroddodd y Clerc nad oes angen caniatâd cynllunio ar gyfer mynedfa i ffordd ddi-ddosbarth. Penderfynwyd cysylltu â'r adran ffyrdd.

Pont Rufeinig: Adroddwyd bod y bont wedi dod yn boblogaidd iawn ar Instagram gyda rhai pobl yn cerdded / yn eistedd ar y bont sy'n heneb restredig. Penderfynwyd cysylltu â CNC a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol sy'n rheoli'r tir i sicrhau bod y bont yn ddiogel.

Adroddiad Cyllidol

Darparodd y Clerc restr o'r holl drafodion ariannol ers y cyfarfod diwethaf i'w dadansoddi. Cytunwyd bod popeth mewn trefn.

Rhif Ffôn: Cytunwyd y bydd y Clerc yn symud rhif ffôn y Cyngor i ddarparwr VOIP gwahanol.

Materion Cynllunio

Caniatâd Adeilad Rhestredig: Tŷ Mawr Wybrnant: Yn dilyn cyfarfod gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn Nhŷ Mawr, cafwyd trafodaeth hir yn y cyfarfod. Penderfynwyd, er y bydd yn drist rhoi llechi ar ochr yr adeilad, i gefnogi'r cais er mwyn diogelu'r amgueddfa ar gyfer y dyfodol.

Materion eraill

Ffordd Ysbyty / Ffordd Groesffordd: Adroddwyd bod y ffosydd wedi'u blocio a'r gwrychoedd wedi tyfu a'u bod yn gwneud y ffordd yn gul iawn. Penderfynwyd cysylltu â'r Cyngor Sir.

St Tudclud: Following a site meeting it was decided to write a letter of support regarding the church's plan to reserve an area of the Community Council's graveyard at St Tudclud for wild flowers and the siting / burial of ashes.

Cemeteries: It was decided to carry out grounds maintenance more frequently at the cemeteries, particularly along the two paths to the church. It was decided to investigate improving the appearance of the church paths. It was also decided to contact the contractor with a view to increasing his pay.

Correspondence

New Entrance on Glasgwm Road: A number of people had contacted the Clerk regarding a new entrance to Glasgwm Road. The Clerk reported that planning permission is not required for an entrance onto an unclassified road. It was decided to contact the highways department.

Roman Bridge: It was reported that the bridge had become very popular on Instagram with some people walking / sitting on the bridge which is a listed monument. It was decided to contact NRW and the National Trust who manage the land to make sure the bridge is safe.

Financial Report

The Clerk provided a list of all financial transactions since the last meeting for analysis. It was agreed that everything was in order.

Telephone Number: It was agreed that the Clerk will move the Council's telephone number to a different VOIP provider.

Planning

Listed Building Consent: Tŷ Mawr Wybrnant: Following a meeting with the National Trust at Tŷ Mawr, a long discussion followed at the meeting. It was decided, even though it will be sad to put slate on the side of the building, to support the application in order to protect the museum for the future.

Other matters

Ysbyty Road / Groesffordd Road: It was reported that the ditches are blocked and the hedges have grown making the road very narrow. It was decided to contact the County Council.

Dympio Asffalt: Adroddwyd bod contractwyr sy'n gweithio i SP Energy yn gollwng asffalt mewn caeau. Penderfynwyd adrodd y mater i CNC.

Stad yr Ymadawedig: Penderfynwyd ceisio cysylltu ag ysgutor ystâd un o drigolion Penmachno a fu farw mewn amgylchiadau trasig y llynedd i gynnig cymorth.

Sgipiau Cymunedol: Penderfynwyd gweithio gyda Chlerc Cyngor Cymuned cyfagos i weld a fydd grant ar gael.

Arwyneb Anwastad: Adroddwyd bod wyneb y maes parcio tu ôl i Deras Llywelyn yn anwastad. Penderfynwyd cysylltu â Cartrefi Conwy a'r Cyngor Sir.

Bws Ysgol: Adroddwyd bod plant yn dal i orfod eistedd ar lawr bws yr ysgol er gwaethaf sicrwydd gan y Cyngor Sir. Penderfynwyd cysylltu â'r Cyngor Sir unwaith eto.

Graeanu'r Briffordd: Penderfynwyd cysylltu â'r contractwyr i sicrhau fod lorïau graeanu yn gallu cyrraedd yr ardal tra bod SP Energy yn parhau â'r gwaith ffordd dros y gaeaf.

Cyfarfod nesaf

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor nos Iau 21 Tachwedd 2024, 7.30 yn Ffestri Capel Salem.

Dumping of Asphalt: It was reported that contractors working for SP Energy are dumping asphalt in fields. It was decided to report the matter to NRW.

Deceased's Estate: It was decided to try to contact the executor of the estate of a resident of Penmachno who died in tragic circumstances last year with a view to offering assistance.

Community Skips: It was decided to work with the Clerk of a neighbouring Community Council to see if a grant will be available.

Uneven Surface: It was reported that the surface of the carpark behind Llywelyn Terrace is uneven. It was decided to contact Cartrefi Conwy and the County Council.

School Bus: It was reported that children are still having to sit on the floor of the school bus despite assurances from the County Council. It was decided to contact the County Council again.

Gritting the Highway: It was decided to contact the contractors to ensure that gritting lorries will be able to reach the area whilst SP Energy continue roadworks over the winter.

Next meeting

The next meeting of the Council will be held on Thursday 21 November 2024, 7.30 at at Capel Salem Vestry.